## Datganiad i'r

# RWE yn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer Fferm Wynt 36 MW Abertyleri

- **Bydd y prosiect yn cynnwys hyd at chwe thyrbin gydag uchafswm uchder blaen y llafnau o 200 metr, a rhagwelir y bydd yn cynhyrchu digon o drydan ar gyfer tua 50,000[1] o gartrefi**
- **Bydd y cais yn cael ei ystyried gan Benderfyniadau Cynllunio Amgylchedd Cymru gyda'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru yn seiliedig ar argymhelliad arolygydd cynllunio.**

Baglan, 18 mis Hydref 2024

Mae cynhyrchydd ynni adnewyddadwy mwyaf Cymru wedi cyflwyno cynlluniau i adeiladu fferm wynt chwe thyrbin gyda'r potensial i gynhyrchu pŵer sy'n cyfateb i anghenion tua 50,000 o gartrefi ar safle tua 10 milltir i'r gogledd o Gasnewydd.

Mae gan Fferm Wynt Abertyleri arfaethedig RWE gapasiti o tua 36 MW gyda phob tyrbin ag uchafswm uchder blaen y llafnau o hyd at 200m. Os caiff ei chymeradwyo bydd yn cael ei gosod rhwng Abertyleri ac Abersychan, yn pontio ffiniau awdurdodau lleol Cynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Thorfaen.

Mae'r cyflwyniad hwn yn dilyn ymgynghoriad helaeth gyda defnyddwyr tir presennol, trigolion cyfagos eraill, awdurdodau lleol ac ymgyngoreion statudol a rhanddeiliaid anstatudol, gydag asesiadau manwl wedi'u gwneud o'r ecosystem a bywyd gwyllt lleol, yn ogystal ag ystyriaethau gweledol, sŵn ac amgylcheddol eraill.

Ochr yn ochr ag unrhyw becyn budd cymunedol yn y dyfodol, mae RWE hefyd wedi bod yn trafod cynigion ar gyfer rhanberchnogaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, a fydd o fudd pellach i'r ardal leol.

**Oliver Piper, Swyddog Prosiectau RWE sy'n arwain y datblygiad**, "Y cyflwyniad hwn yw'r garreg filltir ddiweddaraf mewn prosiect a ddechreuodd yn 2020 a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu drwy gymryd amser i fynychu ein digwyddiadau cymunedol a rhannu eu barn ar y cynigion.

RWE

"Wrth fynd yn ôl at yr asesiadau cyntaf un ar y safle, mae ein cynllun bellach wedi'i lywio gan flynyddoedd o arolygon amgylcheddol, yn cwmpasu ecoleg, adareg, hydroleg, sŵn, y dirwedd ac ystyriaethau gweledol, ynghyd â mesuriadau tywydd, yn ogystal â'r adborth gwerthfawr a dderbyniwyd yn ystod ein dau gyfnod ymgynghori.

"Os caiff ei chymeradwyo, bydd Fferm Wynt Abertyleri a'i phecyn cymunedol cysylltiedig o fudd uniongyrchol i'r gymuned, yn cefnogi busnesau lleol a chadwyni cyflenwi, gan gefnogi uchelgais Cymru o gyflawni 100 y cant o'n defnydd o drydan o ynni adnewyddadwy erbyn 2035."

**Ellie Fry, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**, "Dyma gyfle cyffrous i'r cyngor sydd nid yn unig yn cefnogi ein blaenoriaeth i ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd, ond mae'r buddsoddiad masnachol yn cynnig cyfle i gyflwyno buddion ehangach a fydd yn cefnogi cymunedau ym Mlaenau Gwent i ffynnu."

Bydd y cais cynllunio yn cael ei ystyried gan Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru, a disgwylir penderfyniad terfynol gan Weinidogion Cymru yn 2025.

Gan fod y safle arfaethedig bron yn gyfan gwbl ar dir comin cofrestredig o fewn tiroedd comin Gwastad a Choety a Mynydd James, mae RWE hefyd yn cyflwyno ceisiadau am ganiatâd ar wahân gan Weinidogion Cymru i ddatblygu ar dir comin. Am ragor o wybodaeth, ewch i https://www.rwe.com/abertillery/.


| **Ar gyfer ymholiadau pellach:** | Kelly Nye<br>Cysylltiadau â'r cyfryngau RWE<br>Y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus<br>Ff +44 7795354552<br>E kelly.nye@rwe.com |
| --- | --- |


*1 Mae'r ynni y rhagwelir y bydd y cynnig yn ei gynhyrchu yn deillio o ddefnyddio cyflymderau gwynt a fonitrwyd yn yr ardal leol ac sy'n cyfateb i ddata tywydd hanesyddol tymor hwy gan ddefnyddio modelau meteorolegol wedi'u hadu â data a gafwyd o systemau mesur lloeren, seiliedig ar wyneb ac yn yr awyr. Mae'r ffigur cartrefi cyfatebol a gyflenwir yn seiliedig ar ddefnydd trydan domestig cymedrig blynyddol o 3,126 kWh fesul cartref yng Nghymru o'r ystadegau diweddaraf gan yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (Defnydd Trydan Is-genedlaethol, Prydain Fawr, 2005-2022, defnydd trydan domestig cymedrig blynyddol) (kWh fesul cartref) ar gyfer Cymru, 2022 (https://bit.ly/3QRaYHv). Ystadegau defnydd trydan rhanbarthol ac awdurdodau lleol (www.gov.uk). Ffigurau wedi'u talgrynnu.*

*Mae Fferm Wynt Abertyleri yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae rhagor o wybodaeth a dogfennau cynllunio ar gael i'w gweld drwy chwilio am DNS/3278009 - Fferm Wynt Abertyleri yn https://planningcasework.service.gov.wales/cy/case Cynhaliwyd yr asesiadau safle cyntaf ar gyfer Fferm Wynt Abertyleri yn 2020. Cynhaliwyd ymgynghoriad anstatudol ar gynlluniau cyfnod cynnar, a oedd yn cynnwys diwrnodau gwybodaeth i'r cyhoedd, yn gynnar yn 2023. Dilynwyd hyn ar ddiwedd 2023 gan ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol chwe wythnos o hyd, a oedd yn cynnwys arddangosfeydd a gwahoddiad arall i bobl o gymunedau lleol rannu eu barn.*

**RWE**

*Mae RWE yn arwain y ffordd i fyd ynni gwyrdd. Gyda'i strategaeth buddsoddi a thwf Tyfu'n Wyrdd, mae RWE yn cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant y trawsnewid ynni a datgarboneiddio'r system ynni. Mae tua 20,000 o weithwyr yn gweithio i'r cwmni mewn bron i 30 o wledydd ledled y byd. Mae RWE eisoes yn un o'r cwmnïau mwyaf blaenllaw ym maes ynni adnewyddadwy. Rhwng 2024 a 2030, bydd RWE yn buddsoddi 55 biliwn ewro ledled y byd mewn prosiectau gwynt ar y môr ac ar y tir, ynni solar, batris, cynhyrchu hyblyg, a hydrogen. Erbyn diwedd y degawd, bydd portffolio gwyrdd y cwmni yn tyfu i fwy na 65 gigawat o gapasiti cynhyrchu, a fydd yn*

*cael ei ategu'n berffaith gan fasnachu ynni byd-eang. Mae RWE yn datgarboneiddio ei fusnes yn unol â'r llwybr lleihau 1.5 gradd a bydd yn dod â glo i ben yn raddol erbyn 2030. Bydd RWE yn sero net erbyn 2040. Yn cyd-fynd yn llwyr â phwrpas y cwmni - Ein hynni ar gyfer bywyd cynaliadwy.*

***Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR)***

*Bydd y data personol a brosesir mewn cysylltiad â datganiadau i'r wasg yn cael eu prosesu yn unol â'r gofynion diogelu data cyfreithiol. Os nad oes gennych ddiddordeb mewn parhau i dderbyn y datganiad i'r wasg, rhowch wybod i ni ar communications@rwe.com. Yna bydd eich data yn cael ei ddileu ac ni fyddwch yn derbyn unrhyw ddatganiadau pellach i'r wasg gennym yn hyn o beth. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein polisi diogelu data neu arfer eich hawliau o dan y GDPR, cysylltwch â ukdataprotectionrwe@rwe.com.*